| | |
|---|---|
| Cynulliad Cenedlaethol Cymru<br>Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd | National Assembly for Wales<br>Environment and Sustainability Committee |
| Egwyddorion cyffredinol<br>Bil yr Amgylchedd (Cymru) | General principals of the<br>Environment (Wales) Bill |
| Ymateb gan Wheelabrator Technologies Inc. (UK) | Response from Wheelabrator Technologies Inc. (UK) |
| EB 08 | EB 08 |

## Bil yr Amgylchedd (Cymru) – Rhan 4: Casglu a Gwaredu Gwastraff

### *Ymateb i'r ymgynghoriad gan Wheelabrator Technologies Inc. (UK)*

1. Am eich barn ynglŷn ag a oes ar Weinidogion Cymru angen mwy o bwerau i fynnu bod rhai mathau o wastraff yn cael eu casglu, eu trin a'u cludo ar wahân.
2. A ydych yn cytuno y dylid mynnu y dylai eiddo annomestig roi eu gwastraff allan i'w gasglu yn unol ag unrhyw ofynion gwahanu a osodwyd gan Lywodraeth Cymru?
3. A ydych yn cytuno fod ar Lywodraeth Cymru angen pwerau ehangach i wahardd llosgi rhai mathau o wastraff y mae modd eu hailgylchu?
4. Beth fydd effeithiau'r cynigion gwastraff hyn ar eich sefydliad?
5. A oes unrhyw gynigion gwastraff eraill y dylid, yn eich barn chi, gael eu cynnwys yn y Bil?

1. Yng nghyswllt gwastraff o gartrefi – o ystyried y camau breision sy'n cael eu cymryd eisoes gan Gymru a'r gyfradd ailgylchu gynyddol sydd eisoes yn digwydd, y mae achos dros ddweud '*os nad yw wedi torri, does dim angen ei drwsio'*. Mae Cymru eisoes ar flaen y gad o ran ailgylchu yn y DU, gydag awdurdodau casglu ledled y wlad yn darparu cynlluniau ailgylchu deunyddiau lluosog i gartrefi heb fod angen y pwerau arfaethedig.

   Mae'n werth hefyd ystyried y bwriad i uno awdurdodau lleol sydd ar y gweill gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus, Leighton Andrews AC, fel rhan o'r argymhellion a gynigiwyd gan Gomisiwn Williams. Mae paragraff 3.39 adroddiad Syr Paul Williams ar *Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus* yn dweud fod costau casglu eisoes yn amrywio'n fawr. Yr ydym ni o'r farn y bydd mwy o reoleiddio yn y maes hwn yn cynyddu costau yn gyffredinol, a hynny ar adeg pan fyddai'n ddoethach caniatáu i'r awdurdodau ar eu newydd wedd ganolbwyntio ar fireinio a gwella agweddau gorau eu gwasanaethau casglu ar y cyd.

   Wrth ystyried cwmnïau masnachol, fe ellir gweld cynnydd mewn costau a fydd yn faich annheg ar fusnesau bach a chanolig (BBaCh). Gallai gofyn i fusnesau bach ddidol, storio a chael casglwyr i ffrydiau gwastraff lluosog olygu y buasent yn llai cystadleuol yn eu marchnadoedd. Unwaith eto, gyda chyfraddau ailgylchu gwastraff masnachol mor uchel ag y maent ar hyn o bryd, ymddengys mai chwithig fuasai cynhyrfu'r dyfroedd ar hyn o bryd. Y perygl yw y gallai'r baich ychwanegol hwn effeithio'n wrthgynhyrchiol ar gyfraddau ailgylchu yn y sector hwn.

   Nid yw WTI yn gasglwr gwastraff yn y DU, ond y mae'n dibynnu ar y diwydiant casglu gwastraff i gasglu, didol a gwahanu gwastraff er mwyn darparu tanwydd gweddilliol i'n cyfleusterau. Bydd hyn yn wir yn achos Parc Adfer ac y mae'n hanfodol felly bod y farn a fynegir gan y diwydiant casglu yn cael ei deall yn glir a bod clust yn cael ei rhoi iddi, oherwydd bydd eu profiad a'u gwybodaeth hwy yn allweddol wrth bennu beth all weithio a beth fydd yn gweithio.

2. Byddai unrhyw reoleiddio pellach ar gasglu yn anodd i'w orfodi ac fe allai gosbi BBaCh yn ormodol – a'n gobaith ni yw y bydd rhai o'r busnesau hyn yn gwsmeriaid i ni yn y dyfodol.

   Fel y nodwyd uchod, rhaid rhoi cryn bwysiad i'r ymatebion gan y diwydiant casglu i'r ymgynghoriad hwn wrth asesu unrhyw newidiadau.

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â**:

David Spencer, Rheolwr Cyfathrebu, Wheelabrator Technologies Inc. (UK)
E: dsspencer@wtienergy.com

3. Mae'r drefn Drwydded Amgylcheddol eisoes yn rheoli cyfyngiadau ar fathau o wastraff o gyfleusterau Ynni o Wastraff (YoW) a thirlenwi. Yn y pen draw, bydd diffyg seilwaith marchnad digonol ar gyfer gwastraff ailgylchadwy halogedig mewn llwythi cymysg yn golygu y gallai gwahardd YoW arwain at fwy o allforion, mwy o dipio anghyfreithlon a/neu weithgareddau anghyfreithlon. Mae'r ffaith fod gan Weinidogion Cymru bwerau gwahardd eisoes dan ddeddfwriaeth sydd mewn bodolaeth yn arwydd arall nad oes angen y cynigion hyn.

   Yn 2013/14 cludodd deg cwmni uchaf y DU sydd yn allforio RDF (tanwydd sy'n deillio o wastraff) dros 2m tunnell o adnoddau Prydeinig dramor; dengys amcangyfrifon am 2015 y bydd hyn yn debyg o godi i dros 3m tunnell. Costiodd hyn i'r DU hyd at £192m mewn costau trafnidiaeth, cludo a ffioedd prosesu, a chollwyd adnodd a allasai fod wedi cyflenwi pŵer i dros 312,000 o gartrefi Prydain neu ryw 1.3% o boblogaeth y DU. Mae gwastraff nad oes modd ei ailgylchu a gesglir o gartrefi yng Ngheredigion a Sir Benfro eisoes yn cael ei anfon dramor. Ateb tymor byr yn unig yw hwn. Dros y tymor hwy, byddai'n fwy cyfrifol – o safbwynt economaidd ac amgylcheddol – rheoli'r adnodd hwn yng Nghymru. Mae allforio'r adnodd hwn yn golygu colli'r cyfle i'w ddefnyddio i gynyddu cyfraddau ailgylchu, cynhyrchu ynni carbon isel a datgloi'r cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig â'r naill broses a'r llall o ran busnesau rheoli gwastraff yng Nghymru.

   Trwy gynyddu'r cyfleoedd i allforio trwy'r pwerau arfaethedig hyn, gall Llywodraeth Cymru droi buddsoddi gan y sector preifat ymaith o seilwaith YoW yng Nghymru ac annog allforio gwastraff. Mae'r rhain yn faterion nad ydynt yn rhan o Strategaeth Gwastraff Cymru. Ymysg y sgil-effeithiau, byddai cyfyngu ar ddiogelwch ynni, gwneud i ffwrdd â chyfleoedd posib i fuddsoddi mewn cydleoli cyfleusterau sydd angen gwres, ager, pŵer neu isgynhyrchion eraill, a chynhyrchu llai o ynni adnewyddol. Mae Wheelabrator wedi gweld o brofiad fod ar ardal Glannau Dyfrdwy angen buddsoddiad, swyddi ac ynni. Yn wir, datgelodd y broses gynllunio gefnogaeth sylweddol i Parc Adfer o du'r gymuned fusnes, grwpiau'r diwydiant a'r cyhoedd oedd yn deall y cyfleoedd economaidd a chyflogaeth a allai ddeillio o'r cynllun hwn.

   Mae gwaharddiadau llwyr yn aml yn cyfyngu ar y gallu i ymateb i newidiadau yn amodau'r farchnad, sydd yn y pen draw yn dweud sut y defnyddir adnoddau cymdeithas. Nid yw gwaharddiadau rhy ddeddfol ar ffrydiau deunydd generig a beichiau haearnaidd ychwanegol ar fusnesau yn help i'r sector nac i fusnesau Cymru yn hyn o beth.

   Seilir y pwerau arfaethedig ar ddatganiad o ddiben sy'n gynamserol ac yn ddiangen. Nid yw'r diben a ddatganwyd sef: '*Sicrhau nad yw deunyddiau/adnoddau ailgylchadwy gwerthfawr yn cael eu llosgi'* yn cyd-fynd â gwir sefyllfa'r farchnad. Mae'n rhagdybio y bydd y deunyddiau a restrir yn wastad yn cadw at werth y farchnad – nid yw hyn yn wir ar hyn o bryd. Cynamserol hefyd yw rhagdybio nad yw deunyddiau o'r fath yn debyg o gael eu hanfon i gyfleusterau YoW o ystyried y camau economaidd a pholisi eraill sydd ar gael. Petai deunyddiau o'r fath yn cyrraedd cyfleuster YoW, mae'n annhebygol iawn y buasent o unrhyw wir werth ac mae'n debyg y buasent wedi eu halogi beth bynnag. O wahardd deunyddiau o dirlenwi ac YoW, ni fyddai unman iddynt fynd petaent yn halogedig ac nad oedd lle ar gael mewn unrhyw gyfleuster YoW.

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â**:

David Spencer, Rheolwr Cyfathrebu, Wheelabrator Technologies Inc. (UK)
E: dsspencer@wtienergy.com

Mae'r rhestr o ddeunyddiau yn rhy simplistig. Mae llawer math a graddfa o bapur, plastig, cardiau a phren. Bydd marchnad, hyfywedd ac ymarferoldeb ailgylchu rhai graddfeydd yn naturiol yn amrywio dros amser. Petai 'plastig', er enghraifft, yn cael ei wahardd, beth fyddai'n digwydd i'r polymerau nad oes marchnad gadarn ar eu cyfer ar hyn o bryd? Nid yw pentyrru deunyddiau o'r fath pan fo'r farchnad yn araf hefyd o help i ddatblygu na hybu'r farchnad. Dylid rhoi mwy o hwb i farchnadoedd cynhyrchion eilgylch a thechnolegau ailgylchu cyn gweithredu unrhyw gamau gorfodi trwy gyfrwng y pwerau arfaethedig.

Er bod camau i sicrhau nad yw deunyddiau y gellir yn hyfyw eu hailgylchu yn cael eu hanfon i dirlenwi nac yn cael eu defnyddio fel tanwydd yn glodwiw, mae'r agwedd a gymerir yma yn rhy llawdrwm ar y partïon hynny heb ddim neu fawr ddim dylanwadu ar gyflwyno deunyddiau ar gyfer tirlenwi neu adennill. Nid yw'n glir faint o lefel o risg a chyfrifoldeb fyddai'n disgyn ar gwmnïau, cludwyr/casglwyr gwastraff na chwmnïau sy'n anfon gwastraff i gyfleusterau YoW. Mae hyn yn peri pryder mawr i Wheelabrator o ystyried eu sefyllfa fel Cynigydd a Ffefrir am gontract Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru (PTGGGC).

O'u gweithredu, byddai'r cynigion fel y maent hefyd yn anffurfio'r farchnad. Nid yw cyfleusterau treulio anaerobig (TA) na biomas fel petaent yn dod dan yr un ddyletswydd. Mae pren, papur neu gerdyn heb eu halogi yr un mor annerbyniol – os nad yn fwy felly – i waith TA ag i gyfleuster YoW. Yn wir, mae astudiaethau blaenorol wedi dangos mai adennill ynni yw'r canlyniad amgylcheddol gorau i bapur a chardiau graddfa isel, a bod hyn yn fwy effeithlon o lawer trwy YoW na TA. Hefyd, mae pren heb ei halogi yn danwydd allweddol i gyfleusterau biomas.

4. Gallai'r effeithiau ar ein sefydliad fod yn niweidiol iawn. Gallai'r gwaharddiad ar ddeunyddiau o YoW, o'u cynnwys fel rhan o lwythi cymysg, atal cwmnïau masnachol rhag defnyddio ein gwasanaethau. Bydd gosod system sy'n mynnu eu bod yn gwahanu deunyddiau cyn eu hanfon i'n cyfleuster yn gostus. Mae cyfleusterau rheoli gwastraff eraill ar gael yn Lloegr, a buasent hwy yn ddigon balch i dderbyn y deunydd hwn heb fod angen y camau hyn, gan arbed arian i'r cwmnïau masnachol.

   Mae cyflwyno'r Bil hwn ar yr adeg hon yn broblem arbennig i Wheelabrator, o ystyried y trafodaethau sy'n digwydd ar hyn o bryd gyda'r PTGGGC. Mae Llywodraeth Cymru mewn perygl o ymddangos fel petaent yn teithio i wahanol gyfeiriadau, trwy osod contract am gyfleuster trin gwastraff gweddilliol, ac ar y llaw arall, wneud i ffwrdd â'r gallu i'r cyfleuster hwn weithredu'n effeithiol. Mae'r fframwaith deddfwriaethol presennol yng Nghymru yn gosod cap ar YoW o 30 y cant erbyn 2025, sydd mewn gwirionedd yn gostwng y ffracsiwn a drinnir fel hyn i'r deunyddiau hynny sydd fwyaf addas i YoW beth bynnag. Gyda'r dyhead i fynd ymhellach i 0 y cant YoW erbyn 2050, y cyfan wnaiff y gwaharddiadau arfaethedig yw cymhlethu polisi gwastraff llwyddiannus sydd eisoes ar waith. Dengys y cynigion ddiffyg ffydd a/neu asesiad effaith mewn mesurau polisi sydd eisoes yn bod.

   Deellir y gellid egluro rhai o'r pwyntiau hyn trwy'r canllawiau arfaethedig, ond mae peth amwysedd ac ansicrwydd o hyd yn debyg o aros o ran dehongli, gorfodi a gweithredu. Efallai na fydd canllawiau i weithredwyr, casglwyr, awdurdodau a rheoleiddwyr gwastraff yn atal costau diangen na biwrocratiaeth, a hynny heb esgor ar fanteision amgylcheddol, cymdeithasol nac economaidd profedig.

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â**:

David Spencer, Rheolwr Cyfathrebu, Wheelabrator Technologies Inc. (UK)
E: dsspencer@wtienergy.com

5. Petai'r gwaharddiadau hyn yn cael eu cysylltu â'r fformiwla R1 ac yn cael eu cymhwyso yn unig i gyfleusterau nad oedd yn dangos mai cyfleusterau adfer ac nid gwaredu oeddent, byddai hyn yn haws ei ddeall ac yn fyw derbyniol. Mae Cymru, fel gweddill y DU, wedi gweld bod lle i gynhyrchu mwy o ynni adnewyddol o ffynonellau gwastraff, gan ddefnyddio cyfuniad o dechnolegau hyfyw. Gallai'r potensial i gyflwyno cynlluniau gwres a phŵer cyfun mewn prosiectau ynni YoW hefyd ychwanegu'n sylweddol at effeithlonrwydd ynni yn gyffredinol, a gallai Cymru ddatblygu esiamplau o arferion gorau petai'r rhain yn cael eu hannog.

   Dylid nodi hefyd fod darpariaethau yn y drefn Trwyddedau Amgylcheddol yn gwneud hen ddigon o ddarpariaeth ar gyfer camau ymarferol i atal deunyddiau ailgylchadwy rhag cael eu hanon i adennill ynni.

   O edrych at y dyfodol, bydd gweithredu'r polisi presennol yn golygu y bydd angen tirlenwi yn unig fel dull wrth gefn ac ar gyfer gwaredu deunyddiau gwirioneddol weddilliol heb ddim gwerth caloriffig neu werth isel iawn ac na ellir yn gorfforol eu hailddefnyddio na'u hailgylchu. Mae'r cynigion yn golygu costau ychwanegol, baich biwrocrataidd ac ansicrwydd ar gyfnod buddsoddi sensitif iawn o ran seilwaith hanfodol yng Nghymru a chyflwyno Strategaeth Gwastraff Cymru ei hun. Mae risg wirioneddol y bydd y pwerau arfaethedig yn troi ymaith fuddsoddiad mewn seilwaith, ac yn peryglu'r swyddi a'r manteision economaidd a gwasanaeth a ddaw yn eu sgil.

**DS**: *Byddai Wheelabrator Technologies Inc. yn hapus iawn i drafod yn fanwl y materion a godir yn yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad gyda Llywodraeth Cymru ac fe fuasem yn falch o dderbyn unrhyw gyfle i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd yn y man.*

**Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â**:

David Spencer, Rheolwr Cyfathrebu, Wheelabrator Technologies Inc. (UK)
E: dsspencer@wtienergy.com